

Mae **Anabledd Dysgu Cymru** wedi mabwysiadu'r gosodiad syml 'Hawliau a Gwerthoedd Allweddol' ar gyfer plant, pobl ifanc ac oedolion ag anabledd dysgu.

Mae wedi ei lunio gan farn ein haelodau. Mae'r gosodiad yn cymryd lle 'Siartr Hawliau Unigolion ar gyfer plant ac oedolion ag anabledd dysgu' y mae Anabledd Dysgu Cymru wedi bod yn ei hyrwyddo am ryw bymtheng mlynedd.

Disgwylir i'n holl aelodau gefnogi'r gosodiad newydd a gweithredu yn ôl ei ofynion.

Credwn fod gennych fel plentyn, person ifanc ac oedolyn ag anabledd dysgu yr hawl i:

Gael eich Gwerthfawrogi a'ch Parchu

- cael eich gweld fel unigolyn cyn popeth arall
- cael rhyddid i fyw heb anffafiaeth, rhagfarn, cael eich poenydio, bwlio a'ch cam-drin.



Cael Gwasanaethau a Chefnogaeth i fyw bywyd ystyrlon

- cael dewis go iawn o wasanaethau fel unigolyn ac fel teulu
- cael gwasanaethau prif ffrwd cynhwysol o'r crud hyd at henaint
- cael eich cynnwys yn y ffordd y mae gwasanaethau yn cael eu cynllunio, eu cyflenwi a'u monitro
- cael defnyddio gwasanaethau sy'n gweithio gyda'i gilydd ac mewn partneriaeth
- cael gafael ar wasanaethau yn lleol os oes arnoch eisiau.



Addysg a Hyfforddiant

- cael help a chefnogaeth llawn cyn mynd i'r ysgol
- cael dewis mynychu un ai ysgol brif ffrwd neu ysgol arbennig
- cael addysg a hyfforddiant arwyddocaol trwy gydol eich bywyd.

Cael eich Gweld, eich Clywed a'ch Hysbysu o'r Hyn sy'n Digwydd

- cael eiriolaeth annibynnol
- cael gwybodaeth hawdd ei ddeall wedi ei ddarparu ar eich cyfer a chyingor ar bopeth sy'n cael effaith ar eich bywyd.



Cynllunio eich bywyd eich hun wrth i chi dyfu i fyny

- cael help personol i gynllunio'r hyn rydych yn ei wneud os dyna sydd arnoch ei eisiau
- cael dewis pwy sydd ynghlwm wrth eich helpu i wneud cynlluniau
- cael cefnogaeth i wneud dewisiadau gwybodus y gweithredir arnynt
- bod mor annibynnol â phosibl, gyda chefnogaeth briodol
- cael mentro a gwneud camgymeriadau
- cael dewis sut i wario eich arian a phwy fydd yn ei reoli
- cael dewis ble i fyw a chyda phwy
- cael dewis sut i dreulio'ch amser yn ystod y dydd, y nos a'r penwythnosau a chael cefnogaeth i wireddu'r dymuniadau hynny pan fydd angen.



Cyfeillgarwch, perthynas a bywyd cymdeithasol da

- cael dewis ffrindiau a phartneriaid, a threulio amser gyda nhw
- cael dewis a ydych chi am gael perthynas rywiol ai peidio
- cael preifatrwydd pan fydd ei angen arnoch.

Gwaith

- cael help i baratoi ar gyfer gweithio
- cael eich trin yn deg yn y gweithle
- cael eich talu'n briodol ar gyfer y gwaith
- cael cefnogaeth pan fydd ei angen arnoch i gychwyn gweithio ac wrth i chi weithio.

Mae ein datganiad yn adlewyrchu ymroddiad Anabledd Dysgu Cymru i weithrediad llawn:

- Cytundeb a Datganiad y Cenhedlodd Unedig ar Hawliau'r Plentyn
 - Cytundeb y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Person ag Anableddau
 - Cytundeb Ewropeaidd ar Hawliau Dynol.
- ac i egwyddorion Strategaeth Cymru Gyfan.**

Anabledd Dysgu Cymru 22.10.2010

